# AMODAU AR GYFER DEFNYDDIO PARCIAU A MANNAU AGORED CYHOEDDUS

1. Rhaid i'r trefnydd gyflwyno manylion llawn yr achlysur arfaethedig i'w cymeradwyo gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd, dim mwy na 14 diwrnod cyn yr achlysur. Rhaid i'r manylion gynnwys trefniadau ar gyfer arlwyo, gwaredu sbwriel, toiledau, gweithgaredd cyffredinol i'w gynnal a nifer y bobl sydd i'w ddisgwyl. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiddymu'r trefniadau llogi nad yw'r manylion yn cael eu cyflwyno neu os yw'r trefniadau'n anfoddhaol.

2. Efallai y bydd angen trwydded ar gyfer y digwyddiad arfaethedig. Mae gofyn i'r trefnydd gysylltu â Swyddog Trwyddedu'r Adran Gwasanaethau Amgylcheddol (rhif ffôn: 01443 442100) a chydymffurfio â gofynion unrhyw drwydded sy'n cael ei gymeradwyo.

3. Rhaid i'r trefnydd gydymffurfio â gofynion Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd, neu ei gynrychiolydd penodedig bob amser.

4. Tynnir sylw'r Trefnydd at ofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Rhaid i offer a gosodiadau electronig dros dro gydymffurfio â Rheoliadau Gwifrau I.E.E.

5. Dylai'r Trefnydd gofio y gallai'r achlysur arfaethedig fod yn destun archwiliad gan Adrannau eraill yr Awdurdod sy'n cyflawni eu dyletswyddau statudol.

6. Mae'n bosibl y bydd amodau ychwanegol yn cael eu gosod i gyd-fynd â'r lleoliad a'r digwyddiad dan sylw, fel y mynna'r Awdurdod.

7. Bydd y Trefnwyr yn indemnio ac yn cadw'r Cyngor wedi'i indemnio rhag ac yn erbyn pob achos, treuliau cost, colled, hawliad, anaf, difrod ac atebolrwydd sut bynnag y maen nhw'n digwydd neu oherwydd neu o ganlyniad i'r Drwydded a roddir drwy hyn (ac eithrio anaf sy'n deillio o unrhyw weithred esgeulus gan y Cyngor, ei weision neu ei asiantau), a byddant yn gweithredu polisi yswiriant trydydd parti mewn perthynas â hynny mewn swyddfa ac yn y telerau a'r symiau a gymeradwyir gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol, yntau sydd i'w weld y Polisi o Yswiriant ar gais cyn i'r achlysur gael ei gynnal.

8. Mae'r Trefnydd yn gyfrifol am adfer y safle sydd wedi'i neilltuo, gan gynnwys clirio'r holl sbwriel. Bydd angen clirio sbwriel yn syth ar ôl yr achlysur. Os na fydd y Trefnydd yn adfer y safle i foddhad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd, bydd y gwaith yma'n cael ei wneud gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol a chodir tâl am y gwasanaeth.

9. Ni chaniateir cynnal unrhyw gasgliadau, gemau siawns, raffl na loterïau nac unrhyw fetio heb gymeradwyaeth Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd.

10. Y Trefnydd sy'n gyfrifol bob amser am sicrhau bod yr achlysur yn digwydd yn esmwyth.

11. Rhaid i strwythurau dros dro gael eu hadeiladu gyda deunyddiau cadarn a bod yn addas at eu diben. Rhaid i'r Trefnydd sicrhau bod y rheolau lleol sy'n berthnasol i'r parc neu'r man agored lle cynhelir r achlysur yn cael eu dilyn bob amser.

12. Bydd y Trefnydd yn gyfrifol am dalu ffi llogi gyfredol (swm i'w nodi gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd). Rhaid i'r Adran Gwasanaethau Amgylcheddol dderbyn y ffi 14 diwrnod cyn i'r achlysur ddigwydd. Bydd methu â chydymffurfio â'r amod yma'n arwain at beidio â chaniatáu i'r digwyddiad fynd yn ei flaen.

13. Ni chaniateir dyrannu unrhyw stondinau masnach heb ganiatâd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd.

14. Mae arlwyo trwyddedig neu ddidrwydded yn waharddedig heb ganiatâd penodol Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd. Yn unol â'r ddeddf diogelu bwyd, bydd pob cerbyd sy'n gwerthu cŵn poeth/byrgyrs ac ati'n cael eu hadolygu a byddwn ni'n gwirio'u cofrestriad gyda Grŵp Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd yn Nhŷ Elái, Dinas Isaf, Trewiliam, Tonypandy (Rhif ffôn 01443 442100).

15. Dim ond gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd y caniateir mynediad a pharcio i gerbydau, a bydd angen trwyddedau.

16. Peidiwch â defnyddio unrhyw system annerch gyhoeddus heb gymeradwyaeth Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd.

17. Mae gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd, neu ei gynrychiolydd penodedig, yr hawl i ganslo'r achlysur oherwydd tywydd garw.

18. Rhaid i'r Trefnydd geisio cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd, i chwarae cerddoriaeth mewn parciau a mannau agored. Os ydyn ni'n cymeradwyo'ch cais, rhaid cadw lefelau sŵn i'r lleiafswm er mwyn peidio ag aflonyddu ar drigolion lleol.

19. Fydd y Trefnydd ddim yn caniatáu i anifeiliaid, adar na physgod gael eu dangos, heb gymeradwyaeth Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd.

20. Fydd y Trefnydd ddim yn caniatáu defnyddio anifeiliaid, adar na physgod fel gwobrau.